Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales
Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001**

# *RHAGAIR I'R CYFRIFON*

## Fformat y cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â'r *Accounts Direction* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, o dan Adran 97, Deddf Llywodraeth Cymru. Maent yn gyfuniad o gyfrifon y Cynulliad, ei ddwy asiantaeth weithredol a'r awdurdodau iechyd sy'n gweithredu yng Nghymru.

Gellir cael copi o'r *Accounts Direction* oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Is-adran Atebolrwydd Ariannol, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. Mae set arall o ddatganiadau ariannol sy'n ymdrin â gweithgareddau craidd y Cynulliad hefyd wedi'u paratoi.

## Swyddogaeth a gwaith

Mae gan y Cynulliad y pwer i ddatblygu a gweithredu polisïau mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys: amaethyddiaeth, datblygu'r economi, addysg, yr amgylchedd, iechyd, trafnidiaeth, tai, llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol a'r iaith Gymraeg.

Sefydlwyd y Cynulliad ar 7 Mai 1999 a throsglwyddwyd y rhan fwyaf o staff a swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Trosglwyddwyd gweddill y cyfrifoldebau ar 31 Mawrth 2000.

## Prif nod ac amcanion

Ym mis Hydref 2001, cyhoeddodd y Cynulliad Gynllun i Gymru sy'n pennu'r strategaeth ar gyfer dyfodol Cymru.

O ran y cyfnod y mae a wnelo'r cyfrifon hyn ag ef, cyhoeddwyd cynllun strategol cyffredinol y Cynulliad ar ei wefan **gwellcymru.com** ac roedd yn cynnig ffordd newydd o reoli busnes y llywodraeth yng Nghymru. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2000 ac mae'n nodi gwerthoedd y Cynulliad a'i flaenoriaethau ar gyfer gweithredu dros y tair blynedd nesaf, gan gynnig weledigaeth dros 10 mlynedd er mwyn arwain at lwyddiant.

Ym mis Hydref 2000 ffurfiwyd cabinet newydd, yn seiliedig ar gytundeb partneriaeth rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig. Mae'r pwyslais ar gyflawni newidiadau a chanlyniadau ymarferol. Yn ganolog iddo ceir tair thema drawsbynciol:

- **Datblygu cynaliadwy** – creu cyfoeth tra hefyd yn hyrwyddo newidiadau parhaol, cytbwys a buddiol yn ein cymunedau a'r amgylchedd
- **Cynhwysiant cymdeithasol** – datblygu cymdeithas gynhwysol lle caiff pawb gyfle i gyflawni eu potensial
- **Cyfle Cyfartal** – hyrwyddo diwylliant lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae cyfle cyfartal ar waith.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001**

Er mwyn cyflawni nod y Cynulliad mae **gwellcymru.com** yn nodi bod angen cynyddu ffyniant economaidd a gwella ansawdd bywyd pawb yng Nghymru, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, estyn atebolrwydd democrataidd a chyflwyno gwasanaethau gwell ledled Cymru.

Dyma'r amcanion:

- **Gwell Cyfleoedd Dysgu** – gan gynnwys cynlluniau ar gyfer datblygiad yn y blynyddoedd cynnar, ysgolion, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithredol.

- **Gwell Economi, Economi Gryfach** – datblygu economaidd gwell, swyddi, amaethyddiaeth a'r economi wledig, proffil a dylanwad rhyngwladol, datblygiadau sy'n parchu'r amgylchedd.

- **Gwell Iechyd a Lles** – gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd, effeithiolrwydd clinigol, y GIG yng Nghymru, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymunedol.

- **Gwell Ansawdd Bywyd** – yr amgylchedd, trafnidiaeth, tai, cymunedau, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon.

- **Gwell Llywodraeth** - gwerth am arian, partneriaethau â llywodraeth leol ac eraill, symleiddio ein gwaith a datblygu fel sefydliad.

Ceir crynodeb o nod ac amcanion y Cynulliad mewn atodlen yn rhoi manylion am yr adnoddau ar gyfer pob un o amcanion y Cynulliad ar dudalen 17 y cyfrifon hyn.

**Ariannu**

Ariennir y Cynulliad yn bennaf gan y Senedd trwy Swyddfa Cymru a chan yr Undeb Ewropeaidd.

**Terfynau cyfrif y Cynulliad**

Mae'r cyfrifon hyn yn adlewyrchu asedion, rhwymedigaethau a chanlyniadau'r Cynulliad, ei ddwy asiantaeth weithredol, Cadw: Henebion Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a'r Awdurdodau Iechyd yng Nghymru, sy'n cynnwys y pum awdurdod iechyd yng Nghymru a'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad hefyd yn gyfrifol am gyflawni swyddogaeth ariannol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac o'r herwydd mae ei wariant yntau wedi'i gynnwys yn y cyfrifon hyn.

**Canlyniadau'r flwyddyn**

Nodir canlyniadau'r flwyddyn yn fanwl yn y cyfrifon atodedig. Nodir costau gweithredu net cyfunol o £7,551,554,000. Gwelwyd cynnydd o £169,177,000 yn yr asedion net cyfunol, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth y rhwydwaith ffyrdd ac asedion sefydlog eraill.

Nid oes angen ffigurau cymharol ar gyfer yr incwm, y gwariant a'r llif arian am mai dyma'r flwyddyn ariannol gyntaf lle yr oedd gofyn llunio cyfrifon adnoddau cyfunol.

**Symudiadau asedion sefydlog**

Ychwanegwyd gwerth £97,519,000 o asedion sefydlog diriaethol dros y cyfnod. Ad-brisiwyd yr asedion sefydlog yn y cyfnod, gyda chynnydd net o £197,731,000 yn eu gwerth. Yr oedd £191,635,000 o'r swn hwnnw'n ymwneud â ffyrdd ac asedion seilwaith.

**Gweithgareddau Benthyca a Buddsoddi**

Fel rhan o'i fusnes arferol, mae'r Cynulliad yn rhoi benthyciadau neu Gyfalaf Difidend Cyhoeddus i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rhoddir y mwyafrif o'r cronfeydd i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae benthyciadau eraill yn bodoli gydag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Addysg a Chymdeithasau Tai. Yn ogystal, mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb am reoli benthyciadau gan y Gronfa Fenthyciadau Wladol i Awdurdod Datblygu Cymru.

Ar 31 Mawrth 2001 roedd gan y Cynulliad fuddsoddiadau dyledus o £1,175,002,000, yn cynnwys blaendaliadau dyledus o'r Gronfa Fenthyciadau Wladol o £12,228,000, Cyfalaf Difidend Cyhoeddus o £1,160,016,000 a benthyciadau eraill o £2,758,000.

Pan fydd cronfeydd benthyca'r Cynulliad yn cael eu rhoi ar fenthyg, defnyddir amrywiaeth o gyfraddau llog, a bennir ar y cyfan gan y Trysorlys.

**Adolygu gweithgareddau**

Cofnodir gweithgareddau'r Cynulliad bob blwyddyn mewn adroddiad blynyddol – Adroddiad y Prif Weinidog Ebrill 2000 – Gorffennaf 2001. Gosodir y ddogfen hon gerbron y Cynulliad ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cynulliad.

**Targedau gweithredu**

Mae nifer o dargedau gweithredu yn cael eu cytuno gan y Cynulliad. Cyhoeddir perfformiad mewn perthynas â'r targedau hyn yn Adroddiad y Prif Weinidog Ebrill 2000 – Gorffennaf 2001.

Cyhoeddir perfformiad yr asiantaethau gweithredol, Cadw a WEFO yn eu hadroddiadau a'u cyfrifon blynyddol hwy. Cyhoeddir cyfrifon cyfunol awdurdodau iechyd Cymru, a lunnir gan y Cynulliad, ar wahân.

**Llywodraeth Well**

Pwysleisia "Llywodraeth Well" yr angen i'r Cynulliad, ac yn wir y sector cyhoeddus cyfan, ddatblygu fel sefydliad os yw am gwrdd â'r her o gyflawni'r rhaglen a nodir yn **gwellcymru.com**. Mae hyn yn cynnwys yr amcanion eu hunain a hefyd y ffyrdd newydd o weithio sy'n sail iddynt. Ceir rhaglen ar draws y DU sy'n anelu at Foderneiddio Llywodraeth – cyfraniad y Cynulliad at hon yw'r rhaglen ar gyfer Rhoi Llywodraeth Well ar Waith.

Y weledigaeth a geir yn Rhoi Llywodraeth Well ar Waith yw Cynulliad:

- Sy'n pennu'r safonau uchaf mewn gweinyddiaeth gyhoeddus a gwasanaeth cyhoeddus
- Sy'n gyflogwr da, sy'n cynnal trafodaethau â'i staff ar bob lefel ac yn eu grymuso, ac
- Sy'n sefydliad sy'n dysgu, lle caiff safonau perfformiad eu gwella yn barhaus a'u meincnodi yn erbyn safonau sefydliadau eraill.

Mae'r broses sydd ar waith yn y Cynulliad yn cynnwys 2 elfen allweddol – sef defnyddio Model Rhagoriaeth y Sefydliad Ewropeaidd er Rheoli Ansawdd ar lefel Is-adrannol er mwyn hyrwyddo'r broses o wella a nifer o brosiectau Llywodraeth Well trawsbynciol gyda goblygiadau trwy'r swyddfa gyfan.

**Cyfle Cyfartal**

Mae'r Cynulliad yn gyflogwr Cyfle Cyfartal. Mae polisïau ar waith i ofalu rhag camwahaniaethu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau annheg neu anghyfreithlon i gael gwaith na chael dyrchafiad yn y Cynulliad.

Mae gan y Cynulliad Bwyllgor Cyfle Cyfartal gyda chymorth Swyddog Cyfle Cyfartal sy'n gyfrifol am ddatblygu a lledaenu polisïau Cyfle Cyfartal.

Dywed polisi Cyfle Cyfartal y Cynulliad y dylid trin yr holl staff yn gyfartal heb wahaniaethu rhyngddynt waeth beth fo'u rhyw, eu statws priodasol, eu hoedran, eu hil, eu tras ethnig, eu rhywioldeb, eu hanabledd na'u crefydd. Cyflogir a dyrchefir rhywun yn ôl ei deilyngdod. Asesir staff sydd â phatrymau gwaith gwahanol yn union yr un ffordd â staff amser llawn.

Mae'r Cynulliad a'i asiantaethau yn glynu wrth God Ymarfer y Gwasanaeth Sifil o ran cyflogi pobl anabl. Ei nod yw sicrhau nad oes unrhyw gamwahaniaethu ar sail anabledd, ac mai ar sail gallu, cymwysterau a pha mor addas ydynt ar gyfer y swydd, a hynny'n unig, y caiff pobl eu cyflogi a'u dyrchafu.

**Penodi uwch-swyddogion**

Penodwyd pennaeth parhaol y Cynulliad, Mr John Shortridge, gan y Prif Weinidog ar argymhelliad Pennaeth y Gwasanaeth Sifil Cartref, i fod yn Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad.

Penodir rhai o'r bobl eraill sy'n aelodau o'r Bwrdd Rheoli ar ôl eu cymeradwyo gan y Prif Weinidog ar argymhelliad Pennaeth y Gwasanaeth Sifil Cartref.

Mae'r penodiadau hyn i gyd am gyfnodau amhenodol o dan delerau contract Uwch-Swyddogion y Gwasanaeth Sifil. Nodir y rheolau penodi ym mhenodau 5 ac 11 y *Civil Service Management Code*.

**Tâl Aelodau'r Cynulliad a'r Grŵp Rheoli**

Pennir tâl aelodau'r Cynulliad gan y Cynulliad o dan ddarpariaethau Adran 16, Deddf Llywodraeth Cymru.

Pennir tâl yr Ysgrifennydd Parhaol gan Bennaeth y Gwasanaeth Sifil ar argymhelliad Pwyllgor Tâl yr Ysgrifennyddion Parhaol.

O ran aelodau eraill y Bwrdd Rheoli, pennir y tâl gan Bwyllgor Tâl y Cynulliad dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol yn unol â chanllawiau a roddir gan y Bwrdd Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion. Nodir manylion pellach am dâl yn nodyn 2 y cyfrifon hyn.

**Pensiynau a chostau ymadael yn gynnar**

Ceir manylion polisïau'r Cynulliad ar bensiynau a chostau ymadael yn gynnar yn nodiadau 1 a 2 y cyfrifon hyn.

**Y Cabinet a'r Uwch-Swyddogion**

Roedd 9 swydd yng Nghabinet y Cynulliad yn ystod y cyfnod:

| **Aelod o'r Cabinet** | **Ei swydd** |
|---|---|
| Rhodri Morgan | Prif Weinidog Cymru |
| Michael German *(o 16 Hydref 2000)* | Dirprwy Brif Weinidog Cymru a Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd |
| Jane Davidson *(o 16 Hydref 2000)* | Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Andrew Davies | Y Trefnydd |
| Sue Essex | Gweinidog dros yr Amgylchedd |
| Edwina Hart | Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau |
| Jane Hutt | Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Carwyn Jones *(o 24 Gorffennaf 2000)* | Gweinidog dros Faterion Gwledig |
| Jenny Randerson *(o 16 Hydref 2000)* | Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg |

---

| | |
|---|---|
| Peter Law *(hyd 15 Hydref 2000)* | Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai |
| Tom Middlehurst *(hyd 9 Hydref 2000)* | Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 |
| Rosemary Butler *(hyd 15 Hydref 2000)* | Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 a Phlant |
| Christine Gwyther *(hyd 23 Gorffennaf 2000)* | Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig |

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001**

Dyma aelodaeth Bwrdd Rheoli'r Cynulliad dros y flwyddyn:

| **Uwch-Swyddog** | **Ei Swydd** |
|---|---|
| Mr Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol |
| Mr Paul Silk | Clerc y Cynulliad (o 1 Mawrth 2001) |
| Mr George Craig | Uwch-Gyfarwyddwr – Materion Polisi Cymdeithasol a Llywodraeth Leol |
| Mr Derek Jones | Uwch-Gyfarwyddwr – Materion Economaidd, Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Mr Bryan Mitchell | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Personél, Rheoli a Busnes (hyd 2 Hydref 2000); Cyfarwyddwr Gweithrediaeth y Cabinet (o 3 Hydref 2000) |
| Mr David Richards | Pen Swyddog Cyllid |
| Mr Winston Roddick QC | Cwnsler Cyffredinol |
| Mr Peter Gregory | Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (hyd 5 Tachwedd 2000); Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Personél, Rheoli a Busnes (o 6 Tachwedd 2000) |
| Mr John Lloyd CB | Clerc y Cynulliad (hyd 28 Chwefror 2001) |

## Polisi Talu

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, mae'n ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, p'un bynnag yw'r diweddaraf.

Amcan y Cynulliad a'i gyrff cysylltiedig yw talu 100% o'r anfonebau, gan gynnwys anfonebau a fu'n destun anghydfod unwaith y ceir cytundeb arnynt, yn unol â'r telerau hyn. Nodir pa ganran o'r anfonebau a dalwyd yn unol â'r telerau yng ngwahanol gyfrifon y Cynulliad, ei asiantaethau gweithredol a'r awdurdodau iechyd.

## Archwilwyr

Archwilir y cyfrifon hyn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Digwyddiadau ers diwedd y cyfnod ariannol

Cynhwysir digwyddiadau ers dyddiad y fantolen, sy'n effeithio ar sut y caiff y datganiadau ariannol hyn eu dehongli, yn nodyn 28.

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Ym mis Chwefror 2001, yn "Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid", cyhoeddodd Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwriadu diddymu'r awdurdodau iechyd presennol erbyn 31 Mawrth 2003.

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y DU i lunio adroddiadau ariannol mwy agored, mae'r Cynulliad yn y broses o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Ganolog (fel ymarfer) fel cam cyntaf angenrheidiol tuag at lunio Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, a fydd wedi'u harchwilio a'u cyhoeddi ac a fydd yn cynnwys pob un o gyrff y sector cyhoeddus.

Gobaith y Trysorlys yw y bydd modd cyhoeddi Cyfrifon cyntaf y Llywodraeth Ganolog yn 2003-04. Ar y cyd â hyn, bydd y Cynulliad yn cyhoeddi Cyfrifon Llywodraeth Cymru, a fydd yn cynnwys Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, yn ogystal â'r grwpiau hynny a gynhwysir yn y cyfrifon. Caiff cyrff eraill y sector cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan gynnwys Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Lleol, eu cyfuno maes o law.

**Jon Shortridge**
**Ysgrifennydd Parhaol**
**30 Tachwedd 2001**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001**
**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU SWYDDOGION CYFRIFO'R CYNULLIAD**

1. O dan Adran 97, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir iddo gan y Trysorlys. Mae cyfarwyddyd y Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol rhoi manylion am yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y cyfnod.

2. Paratoir y cyfrifon adnoddau cyfunol ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cynulliad, a'r cyrff eraill o fewn y grŵp, eu cost gweithredu net, unrhyw enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llif arian ar gyfer y cyfnod ariannol.

3. O dan Adran 98 Deddf Llywodraeth Cymru mae'r Trysorlys wedi pennu mai'r Ysgrifennydd Parhaol yw Prif Swyddog Cyfrifo'r Cynulliad ac ef sy'n bennaf gyfrifol am baratoi'r cyfrifon a'u cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r *Resource Accounting Manual* a baratoir gan y Trysorlys, ac yn arbennig:

- cadw at y gofynion perthnasol o ran cyfrifo a datgelu, gan roi polisïau cyfrifo addas ar waith yn gyson;

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- datgan a yw wedi dilyn y safonau cyfrifo cymwys fel y'u nodwyd yn y *Resource Accounting Manual*, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau pwysig yn y cyfrifon;

- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

5. O dan Adran 98 Deddf Llywodraeth Cymru gall y Trysorlys benodi aelodau eraill o staff y Cynulliad fel Swyddogion Cyfrifo ychwanegol. Mae'r Trysorlys wedi penodi Clerc y Cynulliad yn Swyddog Cyfrifo ychwanegol i fod yn gyfrifol am gyllid Swyddfa'r Llywydd. Nid yw'r penodiad hwn yn lleihau cyfrifoldeb cyffredinol yr Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Swyddog Cyfrifo'r Cynulliad.

6. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo wedi penodi Prif Weithredwyr Cadw a WEFO fel swyddogion cyfrifo'r asiantaethau gweithredol.

7. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo hefyd wedi penodi Cyfarwyddwr y GIG yng Nghymru fel Swyddog Cyfrifo'r GIG. Rheolir gwaith yr awdurdodau iechyd gan awdurdod gwahanol, ac mae gwahanol swyddogion cyfrifo'r awdurdodau iechyd yn cael eu penodi fel Swyddogion Atebol gan Gyfarwyddwr y GIG yng Nghymru.

8. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys y cyfrifoldebau am sicrhau uniondeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol, am ddiogelu asedion y Cynulliad, ac am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall yn yr *Assembly Accounting Officers' Memorandum*, a gyhoeddir gan y Trysorlys.

9. Nodir y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifo'r Cynulliad a’r Swyddogion Cyfrifo eraill, ynghyd â’u priod gyfrifoldebau, mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng swyddogion.

10. Mae pob un o'r asiantaethau gweithredol a'r awdurdodau iechyd yn cyhoeddi Datganiadau o Gyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifo eu hunain a chynhwysir y rhain yng nghyfrifon y sefydliadau hynny.

*

---

* *Yn ystod y cyfnod rhwng 6 Tachwedd 2000 a 4 Chwefror 2001, Mr G C G Craig oedd y Swyddog Cyfrifo Ychwanegol dros dro, ac o 5 Chwefror 2001, ar ôl i Mrs Ann Lloyd gael ei phenodi yn Gyfarwyddwraig GIG Cymru fe'i gwnaed hi'n Is-Swyddog Cyfrifo gan y Prif Swyddog Cyfrifo o dan adran 98 Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.*

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001**
**DATGANIAD AR Y SYSTEM FEWNOL AR GYFER RHEOLI ARIAN**

1. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â chyfrifon adnoddau cyfunol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys trafodion ac asedion net ei weithgareddau craidd, ei asiantaethau a chyrff eraill sy'n cael eu cynnwys at ddibenion cyfrifon adnoddau. Fel Prif Swyddog Cyfrifo'r Cynulliad, rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau fod gan y Cynulliad, ei asiantaethau a'r cyrff eraill systemau effeithiol o reoli arian yn fewnol sy'n cael eu cynnal a'u gweithredu mewn cysylltiad â'r adnoddau dan sylw. Prif Weithredwr yr asiantaethau a'r cyrff eraill a gynhwysir sy'n gyfrifol am gynnal a gweithredu systemau'r cyrff hynny ac maent wedi llofnodi datganiad yn ymwneud â'r system honno sydd wedi'i hatgynhyrchu yn y cyfrifon ar gyfer y cyrff penodol. Yn ogystal, o fewn y Cynulliad, rwyf wedi dirprwyo rhai o'r cyfrifoldebau hyn i'r Swyddogion Cyfrifo eraill a nodir y berthynas rhyngom mewn datganiad ysgrifenedig.

2. Ni all system fewnol ar gyfer rheoli arian ond rhoi gwarant resymol, yn hytrach na gwarant absoliwt, bod asedion yn cael eu diogelu, bod trafodion wedi'u hawdurdodi a'u cofnodi'n briodol a bod camgymeriadau neu afreoleidd-dra arwyddocaol naill ai'n cael eu hatal neu o leiaf yn cael eu darganfod mewn da bryd.

3. Mae'r system fewnol ar gyfer rheoli arian yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, rheoliadau ariannol, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, goruchwylio rheolwyr a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Rheolwyr gweithredol y Cynulliad, ei asiantaethau a chyrff eraill sy'n datblygu ac yn cynnal y system. Yn benodol, mae'r system yn cynnwys:

- system gyllidebu gynhwysfawr o fewn cyllideb flynyddol a bennir gan y Cynulliad;
- paratoi adroddiadau ariannol rheolaidd sy'n cymharu gwariant gwirioneddol â'r rhagolygon;
- pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a mathau eraill o berfformiad;
- adolygiadau rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli o berfformiad ariannol a mathau eraill o berfformiad o'u cymharu â'r rhagolygon;
- canllawiau clir ar gyfer rheoli buddsoddiadau cyfalaf;
- disgyblaethau ffurfiol ar gyfer rheoli prosiectau, fel sy'n gymwys.

4. Mae gan y Cynulliad Uned Archwilio Mewnol sy'n gweithredu yn unol â safonau a bennwyd yn y *Government Internal Audit Manual*. Mae gwaith yr Uned Archwilio Mewnol yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r Cynulliad a'i asiantaethau gweithredol yn eu hwynebu. Mae'r cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn adlewyrchu'r dadansoddiad hwn ac yn cael eu cymeradwyo gennyf i neu Brif Weithredwr y sefydliad dan sylw. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad i mi ar weithgaredd archwilio mewnol y Cynulliad a'i asiantaethau gweithredol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r systemau mewnol ar gyfer rheoli arian. Caiff f'adolygiad o effeithiolrwydd y system fewnol ar gyfer rheoli arian ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol. Fe'm cefnogir hefyd gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol sy'n adolygu gwaith yr Uned Archwilio Mewnol.

5. Mae gan yr awdurdodau iechyd eu trefniadau archwilio mewnol eu hunain ac maent yn atebol i'r prif weithredwyr.

6. Caiff f'adolygiad o effeithiolrwydd y system o reoli arian yn fewnol ei lywio gan:

- y rheolwyr gweithredol o fewn y Cynulliad a'i asiantaethau sy'n gorfod darparu tystysgrifau sicrwydd sy'n ymwneud â'u system o reoli arian yn fewnol. Mae'r rhain yn cynnwys nodi meysydd y mae'n bosibl bod angen eu cryfhau;

- gwaith Cyfarwyddiaeth y GIG wrth gadw golwg ar lywodraethu corfforaethol o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru;

- gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fel y'i disgrifiwyd uchod;

- yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

**Gweithredu Adroddiad Turnbull**

4. Fel Swyddog Cyfrifo, rwy'n ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull ac rwy'n cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofynion y Trysorlys ar gyfer paratoi datganiad rheolaeth fewnol am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2002, yn unol â'r cyfarwyddyd a ddarparwyd ganddo.

5. Rwyf wedi penodi Rheolwr Strategaeth Risg, sy'n gyfrifol am ddarparu fframwaith rheoli risg ar gyfer y Cynulliad, i fod yn ei le er mwyn i mi arwyddo Datganiad Rheolaeth Fewnol cyntaf ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31ain Mawrth 2002. Lluniwyd amserlen ar gyfer creu'r strategaeth a'i rhoi ar waith. Dechreuwyd ar y broses o gasglu barn y bwrdd rheoli a'r cyfarwyddwyr grwp a nodi'r risgiau allweddol i'r Cynulliad ac i feysydd cyfrifoldeb y cyfarwyddwyr grwp. Disgwyliaf i'r holl fframwaith rheoli risg gael ei gwblhau erbyn y dyddiad a gytunwyd, sef 31 Mawrth 2003. Bydd datblygu'r fframwaith yn cynnwys trefniadau ar gyfer lleihau risgiau allweddol, hyfforddi, trefniadau adrodd a lledaenu strategaethau rheoli risg. Bydd Uned Archwilio Mewnol y Cynulliad yn adolygu'r cynnydd a wneir.

**Jon Shortridge**
**Ysgrifennydd Parhaol**
**30 Tachwedd 2001**

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 14 i 40 yn unol ag Adran 97 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan amodau'r confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd trwy adbrisio rhai asedion sefydlog a'r polisïau cyfrifo a amlinellir ar dudalennau 18 i 22.

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel ag a ddisgrifir ar dudalennau 8 a 9, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddyd y Trysorlys a wnaed wedyn, ac am ofalu bod trafodion ariannol yn gyson. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol hefyd am baratoi'r Rhagair. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, wedi'u sefydlu o dan statud ac fe'u llywir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a chanllawiau moesegol y proffesiwn archwilio.

Rwy'n rhoi fy marn a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf, ac a yw'r gwariant a'r incwm, i bob pwrpas arwyddocaol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwy'n datgan hefyd, os yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn anghyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrif priodol neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnaf i gynnal yr archwiliad.

Rhof fy marn a yw'r datganiad ar dudalennau 10 a 11 yn adlewyrchu cydymffurfiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru â chyfarwyddyd y Trysorlys "*Corporate governance*: *statement on the system of internal financial control*". Rwy'n datgan os yw'n methu â bodloni'r gofynion a nodir gan y Trysorlys neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni yn sgil f'archwiliad o'r datganiadau ariannol.

### Sail y farn

Cynheliais f'archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys astudiaeth ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae'n cynnwys hefyd asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a ydynt wedi cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Rwyf wedi cynllunio a chynnal f'archwiliad fel fy mod yn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi imi ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gam-ddatganiad perthnasol, boed y rheini trwy gamgymeriad neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, i bob pwrpas arwyddocaol, wedi'u defnyddio ar gyfer y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi cloriannu'r modd y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r grwpiau sy'n gysylltiedig ag ef ar 31 Mawrth 2001 ac o'r costau gweithredu net, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a llif arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2001, ac fe'u paratowyd yn gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dani gan y Trysorlys; ac

- i bob pwrpas arwyddocaol fe ddefnyddiwyd y gwariant a'r incwm ar gyfer y dibenion y'u bwriadwyd ar eu cyfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Gweler hefyd fy adroddiad ar dudalennau 41 i 45.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**24 Ionawr 2002**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CAERDYDD CF99 1NA**

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001
## Datganiad o Gostau Gweithredol Cyfunol
## am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001

| | | Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 | |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** |
| **Costau Rhaglenni** | Nodyn | | |
| Gwariant | 4 | | **8,119,938** |
| Incwm | | | |
| Incwm nad yw o'r UE | 6 | **(533,652)** | |
| Incwm o'r UE | 6 | **(219,779)** | |
| | | | **(753,431)** |
| **Costau Rhaglenni Net** | | | **7,366,507** |
| **Costau Gweinyddol** | Nodyn | | |
| Costau Staff | 2 | **112,614** | |
| Costau Gweinyddol Eraill | 3 | **73,035** | |
| **Costau Gweinyddol Crynswth** | | **185,649** | |
| Incwm Gweinyddol | 6 | **(602)** | |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **185,047** |
| **Costau Gweithredu Net** | | | **7,551,554** |

## Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig
## am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001

| | Nodyn | Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|---|
| Enillion net wrth adbrisio asedion sefydlog diriaethol | 18 | **197,731** |
| Asedion sefydlog annirweddol a gaffaelwyd | 17 | **10** |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig am y flwyddyn ariannol** | | **197,741** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 i 40 yn rhan o'r cyfrifon hyn.*

**Mantolen Gyfunol ar 31 Mawrth 2001**

| | | **Ar 31 Mawrth 2001** | | Ar 31 Mawrth 2000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedion sefydlog** | | | | | |
| Asedion Annirweddol | 8 | | **30** | | 60 |
| Asedion Diriaethol | 9 | | **7,130,324** | | 7,000,203 |
| Buddsoddiadau | 10 | | **1,175,002** | | 1,175,157 |
| | | | **8,305,356** | | 8,175,420 |
| **Asedion Cyfredol** | | | | | |
| Stociau | 12 | **2,285** | | 2,820 | |
| Dyledwyr | 13 | **285,600** | | 294,744 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 14 | **156,744** | | 530,845 | |
| | | **444,629** | | 828,409 | |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 15 | **(561,161)** | | (948,204) | |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol Net** | | | **(116,532)** | | (119,795) |
| **Cyfanswm yr Asedion namyn Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | **8,188,824** | | 8,055,625 |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 15 | | **(6,960)** | | (38,904) |
| **Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau** | 16 | | **(51,499)** | | (55,301) |
| **Benthyciadau o'r Gronfa Fenthyciadau Wladol** | 10 | | **(12,228)** | | (12,460) |
| | | | **8,118,137** | | 7,948,960 |
| **Ecwiti'r Trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 17 | | **7,672,554** | | 7,690,454 |
| Cronfa Adbrisio | 18 | | **445,583** | | 258,506 |
| | | | **8,118,137** | | 7,948,960 |

**Jon Shortridge**
**Ysgrifennydd Parhaol**
**30 Tachwedd 2001**

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 i 40 yn rhan o'r cyfrifon hyn.*

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001**
**Datganiad Cyfunol o Lif Arian**
**am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001**

| | Nodyn | **Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001** £000 |
|---|---|---|
| Llif arian net o weithgareddau gweithredu | | **(6,975,629)** |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol | 7 | **(81,269)** |
| Derbyniadau anweithredol sydd i'w hildio i'r Gronfa Gyfunol | | **643,839** |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol drwy Swyddfa Cymru | | **(1,078,769)** |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol drwy Swyddfa Cymru | 17 | **7,117,727** |
| Lleihad mewn arian yn y cyfnod | | **(374,101)** |

**Cysoni costau gweithredu i'r llif arian gweithredu**

| | | |
|---|---|---|
| **Costau gweithredu net** | | **7,551,554** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 16 | **12,145** |
| Trafodion anariannol : Costau gweinyddol | 3 | **(10,132)** |
| Costau rhaglenni | 4 | **(554,147)** |
| Taliadau tybiannol i Swyddfa Cymru | 17 | **324** |
| Taliadau tybiannol am gostau pensiwn | 17 | **(7)** |
| Symudiadau'r cyfalaf gweithredu heb fod mewn arian | 11 | **(24,108)** |
| **Llif arian allan net o weithgareddau gweithredu** | | **6,975,629** |

**Dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol**

| | | |
|---|---|---|
| Benthyciadau a roddwyd | 7 | **16,591** |
| Benthyciadau a ad-dalwyd | 7 | **(24,313)** |
| Taliadau i gaffael asedion sefydlog | 7 | **99,469** |
| Derbyniadau wrth waredu asedion sefydlog | 7 | **(10,478)** |
| **Llif arian allan net o weithgareddau buddsoddi** | | **81,269** |

**Dadansoddiad o ariannu**

| | | |
|---|---|---|
| O'r Gronfa Gyfunol drwy Swyddfa Cymru | 17 | **7,117,727** |
| Lleihad mewn arian | 14 | **374,101** |
| **Gofyniad arian net** | | **7,491,828** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 i 40 yn rhan o'r cyfrifon hyn.*

**Nod**: Cynhwysir nod y Cynulliad yn y ddogfen Gwellcymru.com ac mae'n rhoi pwyslais ar gyflwyno newidiadau a chanlyniadau ymarferol. Yn ganolog iddo ceir tair thema drawsbynciol:
**Datblygu cynaliadwy** – creu cyfoeth tra hefyd yn hyrwyddo newidiadau parhaol, cytbwys a buddiol yn ein cymunedau a'r amgylchedd;
**Cynhwysiant cymdeithasol** – datblygu cymdeithas gynhwysol lle caiff pawb gyfle i gyflawni eu potensial; a
**Chyfle Cyfartal** – hyrwyddo diwylliant lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae cyfle cyfartal ar waith.

| | 2000-01 | | |
|---|---|---|---|
| | **Gros** | **Incwm** | **Net** |
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Amcanion:** | | | |
| • Gwell Cyfleoedd Dysgu | 774,181 | (110) | **774,071** |
| • Gwell Economi, Economi Gryfach | 691,289 | (227,793) | **463,496** |
| • Gwell Iechyd a Lles | 3,236,515 | (514,925) | **2,721,590** |
| • Gwell Ansawdd Bywyd | 3,601,790 | (11,205) | **3,590,585** |
| • Gwell Llywodraeth | 1,812 | - | **1,812** |
| **Costau Gweithredu Net** | **8,305,587** | **(754,033)** | **7,551,554** |

Nodyn:
Derbyniodd y Cynulliad ganiatâd gan Drysorlys Ei Mawrhydi i beidio â pharatoi Atodlen 5 – Adnoddau yn ôl Amcanion y Cynulliad yng nghyfrifon adnoddau 1999-2000 ac felly nid oes ffigurau cymharol ar gael.

Mae nodyn 29 yn egluro'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer dyrannu adnoddau i amcanion y Cynulliad.

1. **Datganiad o'r polisïau cyfrifo**

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r *Resource Accounting Manual* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan y Cynulliad isod. Cawsant eu cymhwyso'n rheolaidd wrth ymdrin â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.1 **Confensiwn cyfrifo**

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a'u newid i nodi asedion sefydlog a adbrisiwyd yn ôl eu gwerth i'r Cynulliad ar sail eu costau cyfredol. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer yn y *Resource Accounting Manual*

1.2 **Sail Cyfuno**

Mae'r cyfrifon hyn yn gyfuniad o'r adran graidd, ei ddwy asiantaeth weithredol, Cadw a WEFO, y pum awdurdod iechyd a'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol yng Nghymru. Mae pob un o'r cyrff hyn yn llunio ac yn cyhoeddi eu hadroddiad a'u cyfrifon blynyddol eu hunain.

1.3 **Asedion sefydlog diriaethol**

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol wedi'u hailddatgan yn ôl eu cost gyfredol ar sail prisiadau a wnaed gan briswyr proffesiynol bob pum mlynedd a mynegeion priodol yn y blynyddoedd rhyngddynt, heblaw am dir dros ben a ddelir i'w waredu yn syth. Cynhwysir tir o'r fath yn ôl ei werth yn y farchnad.

Mae'r Cynulliad wedi datblygu model cyfrifiadurol i amcangyfrif gwerth y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys y prif gefnffyrdd a'r adeiladau cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r model yn cydymffurfio ag egwyddorion '*Appraisal and Valuation Manual'* Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr Siartredig. Mae'r prisiad gros yn cynnwys cost flynyddol cynnal y rhwydwaith wedi'i chyfalafu.

Mae peiriannau, cyfarpar, ategolion a ffitiadau a cherbydau wedi'u hailddatgan yn ôl cost gyfredol net eu cyfnewid, gan ddefnyddio mynegeion priodol.

Ni chyfalefir asedion unigol sy'n werth llai na £5,000, ac eithrio Cadw lle ceir polisi o gyfalafu asedion unigol sy'n fwy na £1,000.

Nid oes modd amcangyfrif gwerth yr eiddo treftadaeth yng ngofal Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid yw wedi'i gynnwys ar y fantolen. Cofnodir cost yr eiddo treftadaeth, arteffactau archaeolegol a'r gweithiau celf a ddaw i law Cadw ar y datganiad o gostau gweithredu yn ystod blwyddyn eu prynu.

1.4 **Dibrisiant**

Wrth gyfrif dibrisiant y rhwydwaith ffyrdd, cyfrifir tair elfen:

- cost flynyddol ei gynnal a'i gadw;

- amcangyfrif o werth y dirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (wedi'i gyfrif gan fodel cyfrifiadurol ac wedi'i seilio ar y data diweddaraf ar gyflwr y rhwydwaith y cyfeiriwyd ato yn y nodyn uchod ar asedion sefydlog); a

- gwerth dibrisiant a gyfrifwyd ar gyfer yr adeileddau.

Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliol.

Cyfrifir dibrisiant fel bod gwerth yr asedion sefydlog diriaethol yn cael eu diddymu fesul symiau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Amcangyfrif y bydd oes yr asedion fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau rhydd-ddaliol | hyd at 60 o flynyddoedd |
| Peiriannau, cyfarpar a chyfrifiaduron | 3 – 20 o flynyddoedd |
| Celfi a ffitiadau | 5 – 10 mlynedd |
| Cerbydau | 5 – 10 mlynedd |

Ni ddibrisir asedion sy'n cael eu hadeiladu.

Caiff amhariadau ar asedion sefydlog diriaethol eu cofnodi yn y datganiad o gostau gweithredu yn y cyfnod pan wnaethant ddigwydd.

1.5 **Buddsoddiadau**

Dangosir Benthyciadau a Chyfalaf Difidend Cyhoeddus a roddwyd gan y Cynulliad yn ôl eu cost hanesyddol.

1.6 **Stociau**

Prisir stoc yn ôl eu cost adnewyddu isaf (neu gost hanesyddol lle ceir gwahaniaeth arwyddocaol), pa un bynnag sydd leiaf.

1.7 **Incwm Gweithredu**

Incwm gweithredu yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Cynulliad a'i gyrff cysylltiedig. Mae'n cynnwys incwm cadwadwy ac incwm sydd i'w ildio i'r Gronfa Gyfunol y mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi cytuno ei fod yn cael ei drin fel incwm gweithredu.

### 1.8 Gwariant ar Weinyddu ac ar Raglenni

Rhennir y datganiad o gostau gweithredu rhwng costau gweinyddu a chostau rhaglenni. Mae'r costau gweinyddu yn adlewyrchu costau rhedeg y Cynulliad a'i gyrff cysylltiedig, ynghyd â'r incwm gweithredu cysylltiedig. Mae costau rhaglenni yn adlewyrchu gwariant gan y Cynulliad a'i gyrff cysylltiedig ar elfennau heblaw gweinyddu, gan gynnwys talu grantiau a dyraniadau eraill.

### 1.9 Cost Cyfalaf

Cofnodir tâl sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y costau gweithredu. Cyfrifir tâl ar gyfer pob eitem yn y fantolen ar sail gwerth llyfr net cyfartalog yr eitem honno dros y flwyddyn. Cyfrifir y tâl yn unol â chyfradd safonol y llywodraeth sef 6 y cant mewn termau real ar yr holl asedion, llai rhwymedigaethau, heblaw am weddillion arian parod a ddelir gan Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol, symiau sydd i'w had-dalu i'r Gronfa Gyfunol a gofnodir o dan ddyledwyr a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol a gofnodir o dan Gredydwyr.

### 1.10 Treth ar Werth (TAW)

Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant a gyfrifir yn cynnwys TAW. Yn gyffredinol ni all y Cynulliad adennill TAW ac felly mae gwariant yn cynnwys TAW. Cyfrifir am wariant ar wasanaethau a gontractiwyd allan lle gellir adennill TAW ar sail heb gynnwys TAW.

### 1.11 Pensiynau

Daw gweithwyr presennol a chyn-weithwyr o dan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'n bensiwn anghyfraniadol ac ni chaiff ei ariannu. Er mai cynllun budd-dâl diffiniedig yw'r Cynllun, cofnodir yr atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol o dan y PCSPS. Mae cyrff llywodraethol a ddaw o dan y PCSPS yn talu costau pensiwn y staff a gyflogant trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail groniadol. Mae yna ddatganiad cynllun ar wahân ar gael ar gyfer y PCSPS yn gyfan.

Cynhwysir Aelodau'r Cynulliad mewn cynllun pensiwn cyfrannol ar wahân, gyda budd-daliadau diffiniedig. Mae'r Cynulliad yn cyfrannu symiau i'r cynllun hwn, yn unol ag argymhellion actiwari'r cynllun. Paratoir cyfres o gyfrifon ar wahân ar gyfer y cynllun, a gyhoeddir gan y Cynulliad.

Caiff staff yr awdurdodau iechyd eu cynnwys naill ai yng nghynllun pensiwn y GIG neu gynlluniau pensiwn preifat. Cynllun cyfrannol statudol, diffiniedig yw cynllun pensiwn y GIG, a nodir ei ddarpariaethau yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y GIG 1995 (OS 1995 Rhif 300). Pennir cyfraniadau gweithwyr ar gyfradd y penderfynir arni gan y Cynulliad, ar sail cyngor Actiwari'r Llywodraeth. Yn 2000-01, 5% o dâl pensiynadwy oedd y cyfraniad.

1.12 **Costau ymddeol yn gynnar**

Mae'n ofynnol i'r Cynulliad ysgwyddo cost budd-daliadau sy'n ychwanegol at fudd-daliadau arferol y PCSPS i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'r Cynulliad yn darparu'n llawn ar gyfer y gost hon pan gyhoeddir y rhaglen ymddeoliad cynnar a'r Cynulliad yn ymrwymo iddi. Gall y Cynulliad, mewn rhai amgylchiadau, dalu rhan neu'r cyfan o'i rwymedigaeth ymlaen llaw trwy wneud taliad i gyfrif y Tâl-feistr Cyffredinol ym Manc Lloegr i'w gredydu i'r Bleidlais Flwydd-dâl Sifil. Ceir trefniadau tebyg ar gyfer staff yr awdurdodau iechyd sy'n ymddeol yn gynnar.

1.13 **Incwm o'r Undeb Ewropeaidd (UE)**

Mae arian a dderbynnir o'r UE, gan ddibynnu ar ei natur, yn cael ei drin naill ai fel incwm ac yn cael ei ddangos yn y datganiad o gostau gweithredu neu'n cael ei gofnodi fel incwm ar yr adeg y cymeradwyir talu'r grant cysylltiedig.

1.14 **Comisiwn Brenhinol Henebion (Cymru)**

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn gorff cyhoeddus gweithredol a noddir gan y Cynulliad sydd â'r grym trwy Warant Brenhinol i gadw cofnod cenedlaethol o safleoedd hynafol a hanesyddol yng Nghymru. Mae'r Cynulliad, o dan gyfarwyddyd y Trysorlys, yn cyflawni swyddogaethau'r Comisiwn o ran cyllid ac mae felly yn cynnwys ei wariant yn y cyfrifon hyn.

1.15 **Prydlesau gweithredu**

Cofnodir gwariant ar brydlesau gweithredu, gan gynnwys tir ac adeiladau, yn y datganiad o gostau gweithredu yn y cyfnod y digwyddodd ynddo.

1.16 **Grantiau a delir**

Caiff grantiau a delir eu nodi ar y datganiad gweithredu yn ystod y cyfnod yr ymgymerir â'r gwaith yr hawliwyd grant ar ei gyfer.

Yn unol â'r *Resource Accounting Manual*, mae materion fel y cyfnod a gwmpesir gan y cais am grant, amseriad y cais ac amseriad taliadau yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a oes hawl i grant ac wrth benderfynu ar sail cyfrif gweddillion credydwyr a dyledwyr.

Caiff archwilwyr awdurdodau lleol archwilio'r hyn a werir ar ymdrin â cheisiadau am rai grantiau. Nid oedd rhai o'r ceisiadau hyn wedi'u harchwilio pan gafodd y cyfrifon hyn eu cynhyrchu. Caiff unrhyw newidiadau yn sgil yr archwiliad eu gwneud yng nghyfnodau cyfrif y dyfodol. Nid yw'r rhain yn debyg o fod yn sylweddol.

1.17 **Trafodion Menter Cyllid Preifat (PFI)/Partneriaethau Preifat Cyhoeddus**

Yn achos trafodion y mae hanfod eu risgiau a'u manteision yn parhau'n eiddo i'r Cynulliad, bydd yr asedion a'r rhwymedigaethau yn parhau ar Fantolen y Cynulliad. Lle trosglwyddir y risgiau a'r manteision i'r sector preifat, cofnodir y trafodion yn y datganiad o gostau gweithredu trwy daliadau gwasanaeth.

1.18 **Offerynnau Ariannol**

Yn y cyfrifon hyn mae’r Cynulliad wedi mabwysiadu *Financial Reporting Standard* (FRS) 13 – *Derivatives and Other Financial Instruments: Disclosures.* Mae’r Cynulliad yn rhoi offerynnau ariannol, yn arbennig benthyciadau, i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru megis cyrff y GIG. Mae’r benthyca hwn yn digwydd fel rhan o’i weithgareddau arferol ac nid yw’r Cynulliad yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn. Mae’r Cynulliad wedi manteisio ar yr eithriad sydd ar gael ar gyfer dyledwyr a chredydwyr tymor byr. Wrth ddyroddi cyfalaf difidend cyhoeddus, cyfrifwyd gwerth teg fel asedion net y corff sy’n ei dderbyn (a nodwyd ar ôl didynnu unrhyw ddarpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau) llai swm unrhyw fenthyciad a gynhwysir yn y fantolen. Disgowntiwyd benthyciadau eraill dros eu hoes weddilliol gan ddefnyddio cyfradd y Trysorlys, sef 6 y cant.

1.19 **Colledion a thaliadau arbennig (GIG)**

Cyfrifir am gostau achosion o esgeuluster clinigol a cholledion a thaliadau arbennig eraill pan fo'n rhesymol disgwyl setliad. Cofnodir achosion sydd wedi bod yn destun anghydfod fel rhwymedigaethau yn ôl digwyddiad.

1.20 **Ymchwil a datblygu**

Cofnodir gwariant awdurdodau iechyd ar ymchwil a datblygiad ar y datganiad o gostau gweithredu fel y'i ysgwyddir.

---

## 2. Niferoedd a Chostau Staff

4,782 oedd nifer cyfartalog y gweithwyr cyfartal ag amser llawn a oedd yn cael eu cyflogi gan y Cynulliad a'r cyrff o fewn y grŵp (gan gynnwys uwch-swyddogion) yn ystod y cyfnod.

Rhoddir manylion am niferoedd a chostau staff, a thâl yr uwch-swyddogion yng nghyfrifon pob un o'r cyrff sy'n rhan o grŵp y Cynulliad.

Roedd costau cyflogres agregedig y personau hyn fel a ganlyn:

| | **Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 £000** |
|---|---|
| Cyflogau | **95,520** |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | **7,180** |
| Costau Pensiwn Eraill | **9,914** |
| **Cyfanswm y costau** | **112,614** |

Yn 2000-01, talwyd gwerth £7,694,000 o gyfraniadau i’r PCSPS ar raddfa a bennwyd gan Actiwari’r Llywodraeth yn dilyn cyngor gan y Trysorlys. Roedd y cyfraddau hyn yn amrywio o 12 – 18.5% o’r tâl pensiynadwy. Talodd yr awdurdodau iechyd gyfraniadau cyflogaeth gwerth £1,308,000 i Asiantaeth Bensiynau'r GIG.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001**

Dyma oedd cyflogau'r Gweinidogion:

| Enw | Swydd | Oed | Cyflog ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2001 £000 | Cynnydd mewn Pensiwn yn 65 oed £000 | Cyfanswm y Pensiwn Cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhodri Morgan* | Prif Weinidog Cymru | 61 | 50-55 | 0-2.5 | 0-2.5 |
| Michael German[1] | Gweinidog Cabinet | 55 | 50-55 | 0-2.5 | 0-2.5 |
| Jane Davidson1 | Gweinidog Cabinet | 44 | 60-65 | 0-2.5 | 0-2.5 |
| Andrew Davies | Gweinidog Cabinet | 48 | 65-70 | 0-2.5 | 2.5-5 |
| Sue Essex | Gweinidog Cabinet | 55 | 65-70 | 0-2.5 | 0-2.5 |
| Carwyn Jones2 | Gweinidog Cabinet | 34 | 55-60 | 0-2.5 | 0-2.5 |
| Edwina Hart | Gweinidog Cabinet | 43 | 65-70 | 0-2.5 | 2.5-5 |
| Jane Hutt | Gweinidog Cabinet | 51 | 65-70 | 5-7.5 | 5-7.5 |
| Jenny Randerson1 | Gweinidog Cabinet | 52 | 50-55 | 0-2.5 | 0-2.5 |
| Tom Middlehurst5 | Gweinidog Cabinet | 64 | 50-55 | 0-2.5 | 0-2.5 |
| Rosemary Butler3 | Gweinidog Cabinet | 58 | 50-55 | 0-2.5 | 2.5-5 |
| Christine Gwyther4 | Gweinidog Cabinet | 41 | 45-50 | 0-2.5 | 0-2.5 |
| Peter Law3 | Gweinidog Cabinet | 52 | 50-55 | 0-2.5 | 2.5-5 |

Y cyflogau uchod yw'r symiau gwirioneddol a dderbyniwyd ac maent yn cynnwys cyflog fel Aelodau o'r Cynulliad a hefyd gyflog fel deiliaid swyddi. Mae'r manylion am bensiynau cronedig yn cynnwys gwerthoedd a drosglwyddwyd i mewn i'r PCSPS.

*Ni wnaeth Rhodri Morgan gais am ei gyflog llawn.

1 Gweinidog Cabinet o 16 Hydref 2000

2 Gweinidog Cabinet o 24 Gorffennaf 2000

3 Gweinidog Cabinet hyd at 16 Hydref 2000

4 Gweinidog Cabinet hyd at 23 Gorffennaf 2000

5 Gweinidog Cabinet hyd at 9 Hydref 2000

**Y Llywydd**

| Enw | Swydd | Oed | Cyflog £000 | Cynnydd mewn Pensiwn yn 65 oed £000 | Cyfanswm y Pensiwn Cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas | Llywydd | 54 | 65-70 | 0-2.5 | 10-12.5 |

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001**
**Uwch-Reolwyr**

| Enw | Swydd | Oed | Cyflog Blynyddol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2001 £000 | Cynnydd mewn Pensiwn yn 60 oed £000 | Cyfanswm y Pensiwn Cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol | 53 | 115-120 | 2.5-5 | 45-50 |
| George Craig | Uwch Gyfarwyddwr | 54 | 90-95 | 2.5-5 | 35-40 |
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr | 48 | 85-90 | 2.5-5 | 25-30 |
| Paul Silk 7 | Clerc y Cynulliad | 49 | 95-100 | 0-2.5 | 0-5 |
| John Lloyd 3 | Clerc y Cynulliad | 60 | 100-105 | 2.5-5 | 45-50 |
| Michael Cochlin 4 | Cyfarwyddwr, Datblygu Economaidd | 60 | 75-80 | 0-2.5 | 35-40 |
| Winston Roddick | Cwnsler Cyffredinol | 60 | 120-125 | 0-2.5 | 0-5 |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Amaethyddiaeth | 42 | 60-65 | 0-2.5 | 15-20 |
| David Pritchard 5 | Cyfarwyddwr, Datblygu Economaidd | 55 | 70-75 | 2.5-5 | 25-30 |
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Hyfforddiant ac Addysg | 51 | 75-80 | 0-2.5 | 25-30 |
| Martin Evans | Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd | 53 | 70-75 | 0-2.5 | 20-25 |
| Peter Gregory 8 | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Personél, Rheoli a Busnes | 54 | 80-85 | 0-2.5 | 25-30 |
| Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol | 53 | 95-100 | 0-2.5 | 0-5 |
| Rosemary Kennedy | Prif Swyddog Nyrsio | 53 | 55-60 | 0-2.5 | 0-5 |
| Bryan Mitchell | Gweithrediaeth y Cabinet | 56 | 65-70 | 0-2.5 | 25-30 |
| Adam Peat 1 | Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol | 52 | 75-80 | 0-0 | 0.0 |
| Matthew Quinn | Pennaeth Polisi | 37 | 55-60 | 0-2.5 | 10-15 |
| David Richards | Pen Swyddog Cyllid | 46 | 60-65 | 0-2.5 | 15-20 |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol | 50 | 60-65 | 0-2.5 | 15-20 |
| Ann Lloyd 6 | Cyfarwyddwr, GIG Cymru | 52 | 110-115 | 0-2.5 | 0-5 |
| Graham Williams | Prif Arolygydd, Gwasanaethau Cymdeithasol | 52 | 65-70 | 0-2.5 | 20-25 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| John Turnbull | Cynghorydd Cyfreithiol Pwyllgor Deddfau'r Cynulliad | 54 | 65-70 | 0-2.5 | 20-25 |
| David Lambert 2 | Cynghorydd Cyfreithiol y Llywydd | 60 | 70-75 | 0-2.5 | 30-35 |
| Barbara Wilson | Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu | 53 | 60-65 | 0-2.5 | 20-25 |

Mae'r cyflogau uchod yn ôl y gyfradd flynyddol ar gyfer 2000-2001. Mae'r manylion am bensiynau cronedig yn cynnwys gwerthoedd a drosglwyddwyd i mewn i'r PCSPS.

1 Heb fod yn aelod o'r PCSPS
2 Yn gweithio'n rhan amser
3 Wedi ymddeol 23 Mawrth 2001
4 Wedi ymddeol 12 Rhagfyr 2000
5 Penodwyd ar 17 Gorffennaf 2000
6 Ymunodd â'r Cynulliad 5 Chwefror 2001
7 Ymunodd â'r Cynulliad 1 Mawrth 2001
8 Cymerodd swydd Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Personél, Rheoli a Busnes 6 Tachwedd 2000. Roedd Peter Gregory yn Gyfarwyddwr y GIG yng Nghymru hyd at 5 Tachwedd 2000 – cymerwyd y swydd hon gan Ann Lloyd (gweler 6 uchod).

## 3. Costau Gweinyddol

| | Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 | |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Treuliau a chostau cynnal Aelodau'r Cynulliad | | 5,478 |
| Llety'r Cynulliad a Thechnoleg Gwybodaeth (TG) | | 4,214 |
| Costau eraill y Cynulliad | | 3,400 |
| Llety | | 19,317 |
| Gweinyddiaeth ganolog | | 4,847 |
| Rhent o dan brydlesau gweithredol | | |
| - llety | | 1,112 |
| - llogi cerbydau ac offer swyddfa | | 383 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | | 2,933 |
| TG a Thelathrebu | | 16,867 |
| Arall | | 4,352 |
| | | 62,903 |
| Eitemau heblaw arian: | | |
| Ysgrifennu yn ôl asedion sy'n cael eu hadeiladu | 6,761 | |
| Dibrisiant | 1,250 | |
| Cost tâl cyfalaf | 2,046 | |
| Amhariad ar asedion sefydlog diriaethol | 62 | |
| Darpariaeth ar gyfer costau ymddeoliad cynnar a chostau pensiwn | 13 | |
| | | 10,132 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol** | | 73,035 |

## 4. Costau Rhaglenni

| | Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 | |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gwariant ar raglenni | | 7,565,791 |
| Eitemau heblaw arian: | | |
| Cost Cyfalaf | 478,308 | |
| Dibrisiant: Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig | 96 | |
| Tai | 4 | |
| Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd | 62,424 | |
| Addysg a Hyfforddiant | 5 | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 4,790 | |
| Darpariaeth ar gyfer ymddeoliad cynnar a chostau pensiwn | 8,330 | |
| Amhariad ar asedion sefydlog diriaethol | 103 | |
| Colledion ar werthu asedion sefydlog | 87 | |
| | | 554,147 |
| **Cyfanswm costau rhaglenni** | | 8,119,938 |

## 5. Ffioedd Archwilio

£984,000 oedd cyfanswm y ffioedd archwilio am fynegi barn ar y cyfrifon hyn a'r cyfrifon sy'n sail iddynt.

---

## 6. Incwm Gweithredu

| | Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 | | |
|---|---|---|---|
| | Yn gadwadwy gan y Cynulliad | Anghadwadwy gan y Cynulliad | **Cyfanswm** |
| | £000 | £000 | **£000** |
| **Incwm o'r Rhaglenni** | | | |
| Ariannu'r Adran Iechyd o'r Adran Nawdd Cymdeithasol | 300,019 | - | **300,019** |
| Incwm o'r UE ac incwm arall | 217,200 | 2,579 | **219,779** |
| Incwm o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 157,367 | - | **157,367** |
| Incwm iechyd arall | 54,989 | - | **54,989** |
| Incwm o gyrff a noddir a chyrff cysylltiedig | 12,893 | - | **12,893** |
| Incwm o weithgareddau'n ymwneud â chofadeiladau | 3,016 | - | **3,016** |
| Rhenti allanol | 254 | - | **254** |
| Incwm arall | 5,114 | - | **5,114** |
| **Cyfanswm yr incwm o raglenni** | 750,852 | 2,579 | **753,431** |
| **Incwm Gweinyddu** | | | |
| Rhenti allanol | 315 | - | **315** |
| Ffioedd a thaliadau a godwyd | 74 | - | **74** |
| Incwm arall | 203 | 3 | **206** |
| Incwm y Cynulliad | 7 | - | **7** |
| **Cyfanswm yr incwm gweinyddu** | 599 | 3 | **602** |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | **751,451** | **2,582** | **754,033** |

## 7. Dadansoddiad o wariant cyfalaf, buddsoddiadau ariannol a derbyniadau cysylltiedig

| | **Hyd at 31 Mawrth 2001** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfalaf | | Benthyciadau | | Cyfanswm |
| | Ychwaneg-iadau | Gwared-iadau | Dyrodd-iadau | Ad-daliadau | Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gweinyddiaeth Ganolog | 728 | - | 44 | (26) | 746 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 184 | (9,614) | 16,547 | (24,280) | (17,163) |
| Addysg a Hyfforddiant | - | - | - | (7) | (7) |
| Y Cynulliad | 140 | - | - | - | 140 |
| Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd | 98,108 | (819) | - | - | 97,289 |
| Cadw | 309 | (45) | - | - | 264 |
| **Cyfanswm** | **99,469** | **(10,478)** | **16,591** | **(24,313)** | **81,269** |

## 8. Asedion sefydlog annirweddol

| | Trwyddedau meddalwedd |
|---|---|
| | £000 |
| **Cost Adnewyddu Gros** | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 156 |
| Ychwanegiadau | 8 |
| Adbrisio | 4 |
| Trosglwyddiadau | 72 |
| Gwarediadau | (14) |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **226** |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 96 |
| Adbrisio | 3 |
| A ddarparwyd yn y flwyddyn | 44 |
| Trosglwyddiadau | 62 |
| Gwarediadau | (9) |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **196** |
| **Gwerth Net y Llyfr** | |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **30** |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 60 |

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2000-2001**
**9. Asedion sefydlog diriaethol**

| | Ffyrdd ac Isadeiledd | Tiroedd ac Adeiladau Rhydd-ddaliol | TG, Peiriannau ac Offer | Asedion sy'n cael eu Hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 7,911,994 | 159,767 | 14,166 | 67,876 | **8,153,803** |
| Ychwanegiadau | 69,179 | 293 | 1,511 | 26,536 | **97,519** |
| Asedion a gaffaelwyd | - | 1,490 | - | (1,490) | - |
| Gwarediadau neu amhariad | (88,426) | (11,646) | (298) | (6,761) | **(107,131)** |
| Adbrisio | 220,347 | 6,180 | (152) | - | **226,375** |
| Trosglwyddiadau | - | - | 5 | - | **5** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **8,113,094** | **156,084** | **15,232** | **86,161** | **8,370,571** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 1,128,245 | 15,025 | 10,330 | - | **1,153,600** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 61,952 | 5,660 | 913 | - | **68,525** |
| Adbrisio | 28,712 | 113 | (15) | - | **28,810** |
| Gwarediadau | (9,309) | (1,101) | (283) | - | **(10,693)** |
| Trosglwyddiadau | - | - | 5 | - | **5** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **1,209,600** | **19,697** | **10,950** | **-** | **1,240,247** |
| **Gwerth Net y Llyfr** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **6,903,494** | **136,387** | **4,282** | **86,161** | **7,130,324** |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 6,783,749 | 144,742 | 3,836 | 67,876 | 7,000,203 |

Nodir tir, adeiladau, peirianwaith a ffitiadau yn ôl cost eu hadnewyddu ar ôl dibrisiant. Prisiwr Dosbarth Cyllid y Wlad neu GVA Grimley, Syrfewyr Siartredig sy'n prisio, a hynny ar sail gwerth marchnad agored ar gyfer y defnydd presennol yn unol â'r *Appraisal and Valuation Manual*, a gynhyrchwyd ar y cyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Cymdeithas Gorfforedig y Priswyr a'r Arwerthwyr a'r Sefydliad Refeniw, Ardrethu a Phrisio.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio bob pum mlynedd. Yn y blynyddoedd ariannol rhyngddynt cânt eu prisio trwy ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym mis Mawrth ym mhob blwyddyn ariannol. Caiff TG, peiriannau ac offer eu prisio ar sail y mynegeion misol a ddarperir gan Swyddfa'r Ystadegau Gwladol ar gyfer pob dosbarth o asedion.

Cynhwysir cost cynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd, sef £69,179,000, yn yr ychwanegiadau. £79,117,000 oedd gwerth net y ffyrdd a drosglwyddwyd i'r awdurdodau lleol.

## 10. Benthyciadau a buddsoddiadau

| | **Cyfalaf Difidend Cyhoeddus** | **Benthyciadau Eraill** | **Cronfa Fenthyc-iadau Wladol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 1,159,825 | 2,872 | 12,460 | **1,175,157** |
| Dyroddiadau | 16,547 | 48 | - | **16,595** |
| Ad-daliadau | (24,279) | (162) | (232) | **(24,673)** |
| Ad-drefnu'r Ymddiriedolaethau Iechyd 1 | 7,923 | - | - | **7,923** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **1,160,016** | **2,758** | **12,228** | **1,175,002** |

*Dadansoddiad o Fenthyciadau a Buddsoddiadau fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2001:*

| | Gwerthoedd Llyfr £000 |
|---|---|
| **Cyfalaf Difidend Cyhoeddus** | |
| Ymddiriedolaethau Iechyd | 1,150,940 |
| Awdurdod Datblygu Cymru | 9,076 |
| | **1,160,016** |
| **Benthyciadau Eraill** | |
| Addysg a Llywodraeth Leol | 2,250 |
| Benthyciadau i Staff | 161 |
| Benthyciadau a Morgeisiau Tai | 347 |
| | **2,758** |
| **Cronfa Fenthyciadau Wladol** | |
| Awdurdod Datblygu Cymru | **12,228** |

Gwerth teg y buddsoddiadau uchod oedd £1,163,869,000 ar 31 Mawrth 2001 yn unol â'r polisi cyfrifo a nodwyd.

1 Yn ystod y flwyddyn dilewyd Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandoche ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Ardal ac fe grewyd ymddiriedolaeth newydd sef Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro.

## 11. Symudiadau mewn cyfalaf gweithredu heblaw am arian

| | **Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001** |
|---|---|
| | **£** |
| Lleihad mewn stoc | **(535)** |
| Lleihad mewn dyledwyr | **(9,144)** |
| Lleihad mewn credydwyr | **418,987** |
| | **409,308** |
| Newidiadau yn y ffordd y triniwyd trefniadau ariannu Estyn | **870** |
| Addasiad ar gyfer newidiadau mewn credydwyr cyfalaf | **(1,942)** |
| Heblaw newidiadau mewn symiau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol a balansau costau anweithredol eraill | **(432,344)** |
| | **(24,108)** |

## 12. Stociau

| | **Ar 31 Mawrth 2001** | Ar 31 Mawrth 2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Deunydd crai a nwyddau traul | **229** | 337 |
| Offer telathrebu sbâr | **1,577** | 2,039 |
| Nwyddau i'w hailwerthu | **479** | 444 |
| | **2,285** | 2,820 |

## 13. Dyledwyr

| | **Ar 31 Mawrth 2001 £000** | Ar 31 Mawrth 2000 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnach | **25,710** | 26,775 |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Cynulliad ac sy'n ad-dalwy i'r Gronfa Gyfunol | **17,942** | 18,321 |
| Adneuon a blaendaliadau | **1,707** | 7,393 |
| Yr Undeb Ewropeaidd | **121,973** | 105,418 |
| Dyledwyr eraill | **9,170** | 7,299 |
| Dyledwyr cyfalaf | **97** | - |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | **4,200** | 14,655 |
| Cronfa Risgiau Cymru | **69,330** | 59,846 |
| Treth arall | **8,851** | 5,388 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **5,166** | 2,409 |
| | **264,146** | 247,504 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Yr Undeb Ewropeaidd | **2,071** | 27,189 |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | **6,679** | 6,679 |
| Cronfa Risgiau Cymru | **12,691** | 13,359 |
| Dyledwyr eraill | **13** | 13 |
| | **21,454** | 47,240 |
| **Cyfanswm y dyledwyr** | **285,600** | 294,744 |

## 14. Arian yn y banc ac mewn llaw

| | **£000** |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2000 | 530,845 |
| All-lif arian net | (374,101) |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **156,744** |

Mae Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol Ei Mawrhydi (STC) yn darparu gwasanaeth bancio cyfrif cyfredol. Delid y balansau canlynol ar 31 Mawrth:

| | |
|---|---|
| Balans gyda STC | **155,292** |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **1,452** |
| | **156,744** |

## 15. Credydwyr

| | **Ar 31 Mawrth 2001 £000** | Ar 31 Mawrth 2000 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Credydwyr masnach | **300,167** | 304,489 |
| Credydwyr eraill | **45,198** | 35,434 |
| Symiau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol drwy Swyddfa Cymru | **42,386** | 475,109 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig: | | |
| Yr Undeb Ewropeaidd | **127,181** | 82,313 |
| Eraill | **2,718** | 3,027 |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | **35,103** | 36,907 |
| Credydwyr cyfalaf | **517** | 507 |
| Deiliaid y Gronfa Ymarfer Cyffredinol | **6,080** | 8,317 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **1,087** | 1,697 |
| Pensiynau staff eraill | **724** | 404 |
| | **561,161** | 948,204 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Yn daladwy i Amgueddfa Genedlaethol Cymru ynghylch gwerthu Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru | **4,000** | 4,200 |
| Symiau a gedwir ynglyn â chontractau Priffyrdd a Thrafnidiaeth | **763** | 728 |
| Credydwyr masnach | **2,085** | 27,189 |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | **-** | 6,685 |
| Credydwyr staff eraill | **112** | 102 |
| | **6,960** | 38,904 |
| **Cyfanswm y credydwyr** | **568,121** | 987,108 |

## 16. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

**Costau Ymddeol yn Gynnar a Darpariaethau Pensiwn**

| | **£000** |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2000 | 55,301 |
| Swm a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (12,145) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 8,343 |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **51,499** |

**17. Cysoni'r gost gweithredu net â newidiadau yn y gronfa gyffredinol**

| | £000 |
|---|---|
| **Costau gweithredu net am y cyfnod** | **(7,551,554)** |
| Ariannu gan Swyddfa Cymru (net) | **7,117,727** |
| Incwm gweithredu sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | **(2,582)** |
| Ad-daliadau benthyciadau sy'n daladwyr i'r Gronfa Gyfunol | **(120)** |
| Ffyrdd a arferai fod yn gefnffyrdd a drosglwyddwyd | **(79,117)** |
| Ad-drefnu'r Ymddiriedolaethau Iechyd | **7,923** |
| Newidiadau yn y ffordd y triniwyd trefniadau ariannu Estyn | **(870)** |
| Trosglwyddwyd o'r gronfa adbrisio | **10,654** |
| Caffael asedion sefydlog annirweddol | **10** |
| Benthyciadau Staff– trosglwyddiadau net gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth | **(8)** |
| | **(497,937)** |
| Taliadau ac incwm tybiannol: | |
| Cost Cyfalaf | **480,354** |
| Gwasanaethau a ddarparwyd i Swyddfa Cymru | **(324)** |
| Taliadau tybiannol am gostau pensiwn | **7** |
| **Lleihad net yn y gronfa gyffredinol gyfunol** | **(17,900)** |
| Ar 1 Ebrill 2000 | **7,690,454** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **7,672,554** |

**18. Cronfa Adbrisio**

| | | £000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2000 | | 258,506 |
| Adbrisio yn ystod y cyfnod* | | |
| Ffyrdd | 191,635 | |
| Tir ac Adeiladau | 5,957 | |
| Tir Dros Ben | 121 | |
| Peiriannau ac offer | 18 | |
| Gweddill ar ôl adbrisio | | 197,731 |
| Trosglwyddiad i'r Gronfa Gyffredinol ynghylch yr elfen a wireddwyd o'r gronfa adbrisio | | (10,654) |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | | **445,583** |

*Mae symiau adbrisio eraill sy'n dod i £165,000 wedi cael eu trosglwyddo i'r Datganiad o Gostau Gweithredu yn y flwyddyn.

Mae'r gronfa adbrisio yn adlewyrchu balans yr addasiadau a wnaed i gymryd i ystyriaeth newidiadau mewn prisiau ac adbrisio asedion sefydlog diriaethol.

**19. Ymrwymiadau Cyfalaf**

| | **Ar 31 Mawrth 2001** **£000** |
|---|---|
| Roedd yr ymrwymiadau cyfalaf na wnaed unrhyw ddarpariaeth ar eu cyfer yn y cyfrifon hyn fel a ganlyn: | |
| Y Gyfarwyddiaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd | **31,197** |

**20. Ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol**

| | **Ar 31 Mawrth 2001** | | |
|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau £000 | Eraill £000 | **Cyfanswm £000** |
| Ar 31 Mawrth 2001 roedd y Cynulliad, ei asiantaethau a'r awdurdodau iechyd yng Nghymru wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn ddilynol ynghylch prydlesau gweithredol a fyddai'n dod i ben: | | | |
| O fewn blwyddyn | 14 | 168 | **182** |
| Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd | 505 | 18 | **523** |
| Ar ôl pum mlynedd | 3,267 | - | **3,267** |
| | 3,786 | 186 | **3,972** |

**21. Ymrwymiadau Refeniw**

Ymrwymiadau'r Fenter Cyllid Preifat

| | Ar 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|
| Roedd y Cynulliad, ei asiantaethau a'r awdurdodau iechyd yng Nghymru wedi ymrwymo i wneud y taliadau blynyddol cyfartalog canlynol ynghylch cynlluniau o dan y Fenter Cyllid Preifat a fyddai'n dod i ben: | |
| Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd | **10,248** |
| Ar ôl pum mlynedd | **13,866** |
| | **24,114** |

Mae Siemens Business Services yn darparu caledwedd, meddalwedd a gwasanaethau cynnal TG, a elwir yn 'OSIRIS', i'r Cynulliad o dan gontract Menter Cyllid Preifat. O dan gynllun Menter Cyllid Preifat comisiynwyd contractwyr allanol gan y Cynulliad i adeiladu lôn gerbydau ar draws Ynys Môn.

Nid oedd gan y Cynulliad ymrwymiadau refeniw sylweddol eraill ar ddyddiad y fantolen.

## 22. Rhwymedigaethau annisgwyl

| | Ar 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|
| Hawliadau cyfreithiol - esgeuluster meddygol honedig neu esgeuluster honedig ar ran y cyflogwr | **68,834** |
| Ymrwymiadau contract posibl | **4,050** |
| Costau Diswyddo – Sefydliadau Addysg Uwch | **2,800** |
| Hawliadau iawndal | **316** |
| Rhwymedigaethau trethiannol posibl | **25** |
| | **76,025** |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi etifeddu nifer o rwymedigaethau annisgwyl anfesurol yn dilyn dirwyn cyn Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben. Trosglwyddwyd y ddyletswydd o dalu rhwymedigaeth o'r fath i Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy gyfrwng Offeryn Statudol lleol, Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau ac Atebolrwydd) 2000, a wnaed o dan Adran 165 Deddf Cynllunio a Thir Llywodraeth Leol 1980 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r Cynulliad yn danysgrifennwr, os aiff i'r pen, ar gyfer yr achosion a gaiff eu trin gan Gronfa Risgiau Cymru, a reolir gan Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych. Mae cyfrifon cryno Ymddiriedolaethau GIG Cymru ar gyfer 2000-01 yn datgelu rhwymedigaeth annisgwyl ar gyfer y Gronfa Risgiau o £149,814,000 (1999-2000 £130,781,000).

## 23. Dadansoddiad o gostau gweithredu net

| | Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|
| Y Cynulliad | **1,394,613** |
| Gwasanaeth Iechyd Gwladol | **2,688,209** |
| Llywodraeth Leol | **2,691,765** |
| Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad | **735,071** |
| Cadw | **11,904** |
| Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | **3,441** |
| Estyn | **7,250** |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | **1,967** |
| Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd | **486** |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | **12,049** |
| Asiantaethau eraill | **4,799** |
| | **7,551,554** |

## 24. Llog

| | Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|
| **Llog i'w Dalu:** | |
| Y Gronfa Fenthyciadau Wladol | **1,773** |
| **Llog i'w Dderbyn:** | |
| Buddsoddiadau'r Gronfa Fenthyciadau Wladol | **(1,773)** |
| Difidend a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau Difidend Cyfalaf Cyhoeddus | **(73,841)** |
| Llog ar fenthyciadau eraill (gan gynnwys benthyciadau Iechyd) | **(56)** |
| Blwydd-daliadau ymadael yn gynnar | **(1)** |
| | **(75,671)** |

**25. Cymeradwyaethau Credyd**

Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi cymeradwyaethau credyd yn flynyddol i'r awdurdodau lleol ar gyfer gwariant cyfalaf fel y'i diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae hyn yn caniatáu i awdurdod fenthyca a llunio trefniadau credyd hyd at uchafswm y gymeradwyaeth credyd. Mae ad-daliad y benthyciadau a'r trefniadau credyd yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn setliad refeniw blynyddol yr awdurdod lleol.

Dyma'r cymeradwyaethau credyd a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn:

| | **Hyd at 31 Mawrth 2001 £000** |
|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | **4,897** |
| Tai | **121,211** |
| Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd | **52,913** |
| Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig | **11** |
| Datblygu Economaidd | **15,971** |
| Addysg a Hyfforddiant | **33,753** |
| **Cyfanswm y Cymeradwyaethau Credyd** | **228,756** |

**26. Atebolrwydd Ychwanegol**

**a) Colledion (ac eithrio Awdurdodau Iechyd)**

| | ***Nifer yr Achosion*** | **Swm £000** |
|---|---|---|
| Y Cynulliad: | | |
| Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig | *162* | 130 |
| Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd | *36* | 38 |
| Gweinyddiaeth Ganolog | *30* | 5 |
| Datblygu Economaidd | *3* | 46 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | *3* | 1 |
| Cadw | *3* | 2 |
| | ***237*** | **222** |

**b) Taliadau Arbennig (ac eithrio Awdurdodau Iechyd)**

| | ***Nifer yr Achosion*** | **Swm £000** |
|---|---|---|
| Y Cynulliad: | | |
| Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd | *42* | 63 |
| Gweinyddiaeth Ganolog | *3* | 4 |
| | ***45*** | **67** |

**c) Awdurdodau Iechyd: Colledion a Thaliadau Arbennig**

| | *Nifer yr Achosion* | **Swm £000** |
|---|---|---|
| Esgeuluster clinigol | *216* | 19,651 |
| Arall | *58* | 437 |
| | *274* | **20,088** |

## 27. Trafodion â Chyrff Cysylltiedig

Ariennir y Cynulliad gan Swyddfa Cymru.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi cael trafodion â nifer o Adrannau'r Llywodraeth a chyrff eraill sy'n perthyn i'r Llywodraeth ganolog gan gynnwys Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Asiantaeth y Swyddfa Brisio
Asiantaeth yr Amgylchedd
Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru
Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru
Bwrdd Cenedlaethol Nyrsio, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd Cymru
Bwrdd Croeso Cymru
Bwrdd Henebion Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Canolfan Ewropeaidd Cymru
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd
Cyfreithwyr Eiddo'r Llywodraeth
Cyfreithiwr y Trysorlys
Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Cyngor Chwaraeon Cymru
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Swyddfa'r Tywydd
Y Comisiwn Coedwigaeth
Y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd
Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru
Yr Adran Diwydiant a Masnach
Yr Asiantaethau Cefnffyrdd yng Nghymru
Yr Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig
Yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Ni chafodd unrhyw un o Aelodau’r Cynulliad, y staff rheoli allweddol nac unrhyw un arall sydd â chysylltiad ag ef unrhyw drafodion arwyddocaol â’r Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn.

Bu pob un o'r pum awdurdod iechyd yn cynnal trafodion â grwpiau perthnasol. Gellir gweld manylion y rhain yn y cyfrifon sy'n sail i'r rhain.

---

## 28. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Ataliwyd y prosiect i adeiladu siambr trafodaethau’r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2001. Ar 31 Mawrth 2001 roedd y swm a gyfalafwyd yn £680,000 ac fe’i cynhwysir o dan asedion sy’n cael eu hadeiladu. Priodolwyd gwariant refeniw o £1,986,000 i’r datganiad o gostau gweithredu yn unol â pholisïau cyfrifo’r Cynulliad.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau pellach ers diwedd y flwyddyn ariannol a fyddai'n effeithio ar y ffordd y caiff y cyfrifon adnoddau cyfunol eu dadansoddi.

---

## 29. Atodlen 5 – Adnoddau yn ôl Amcanion y Cynulliad

Dyrannwyd gwariant net ar raglenni yn Atodlen 5 ar sail adroddiadau gan yr is-adrannau a rannodd wariant net rhwng pob un o’r amcanion. Gan fod y rhan fwyaf o wariant y Cynulliad yn ymwneud â rhaglenni, dyrannwyd costau gweinyddol i’r amcanion yn ôl yr un cyfrannau â’r gwariant cyffredinol ar raglenni.

Ni ddadansoddwyd y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan y Cynulliad yn ôl amcanion gan nad ystyrir bod y dadansoddiad hwn yn angenrheidiol nac yn fuddiol.

---

## 30. Incwm trwy bresgripsiynau

Yn ei adroddiad *Maximising Income from Prescription Charges* a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2000, amcangyfrifodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei bod yn bosibl fod hyd at £15 miliwn y flwyddyn yn cael ei golli wrth i bresgripsiynau gael eu hawlio gan unigolion nad oeddent yn bodloni'r meini prawf perthnasol. Cafwyd y ffigur hwn ar ôl dadansoddi presgripsiynau a brisiwyd ar gyfer Medi 1999.

Nid oedd gan y pum Awdurdod Iechyd systemau na gweithdrefnau i nodi a chofnodi arian a oedd yn ddyledus i GIG Cymru ond a oedd heb eu casglu gan fferyllwyr annibynnol. Mae'r Awdurdodau Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu ar y cyd â Chyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad ac Atebion Iechyd Cymru i fynd i'r afael â'r broblem yn ystod 2002-03. Nid oedd yn bosibl mesur y diffyg yn yr incwm a oedd yn ddyledus yn 2000-01.

---

# CYFRIF ADNODDAU CYFUNEDIG CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 2000-01:

# ADRODDIAD GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

## Cyfrif Adnoddau Cyfunedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 2000-01

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Cyflwyniad

1. O dan Adran 97 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a gyfarwyddir gan y Trysorlys. Mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifo lofnodi'r cyfrifon hynny erbyn 30 Tachwedd yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n ofynnol i mi eu harchwilio a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad ynghyd ag unrhyw adroddiad rwyf yn dymuno ei wneud.

2. Cwmpasodd cyfrif adnoddau cyntaf y Cynulliad y cyfnod o'r dyddiad y cafodd ei sefydlu, 7 Mai 1999, hyd 31 Mawrth 2000. Nododd cyfarwyddyd y Trysorlys am y cyfnod hwnnw y dylai'r cyfrif gwmpasu gweithgareddau craidd y Cynulliad yn unig. Rhoddodd fy adroddiad ar y cyfrifon hynny, a gyhoeddwyd ar 30 Ionawr 2001, sylwadau ar yr anawsterau a wynebodd Grŵp Cyllid y Cynulliad wrth baratoi'r cyfrifon hynny. Yn ogystal, amlinellodd heriau'r dyfodol yn sgîl cyflwyno cyllidebu yn seiliedig ar adnoddau, paratoi "cyfrifon llywodraeth Cymru gyfan" a gosod system gyfrifo ariannol a rheoli cyfrifon gyfrifiadurol newydd.

3. Ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2001, cyfarwyddodd y Trysorlys y Cynulliad i baratoi dau gyfrif adnoddau. Roedd y cyfarwyddyd cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad baratoi cyfrif adnoddau ar gyfer ei weithgareddau craidd yn unig. Llofnodwyd y cyfrif hwn gan y Prif Swyddog Cyfrifo ar 15 Tachwedd 2001 a rhoddais farn archwilio ddiamod arno. O dan yr ail gyfarwyddyd roedd yn ofynnol i'r Cynulliad baratoi cyfrif adnoddau cyfunedig yn dangos canlyniadau ariannol gweithgareddau craidd y Cynulliad, ei asiantaethau gweithredol (Cadw a Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru) y pum awdurdod iechyd a gweithgareddau'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol yng Nghymru. Llofnodwyd y cyfrif hwn gan y Prif Swyddog Cyfrifo ar 30 Tachwedd 2001.

4. Yn yr adroddiad hwn, rhoddaf sylwadau ar ganlyniadau fy archwiliadau o'r ddau gyfrif ar gyfer 2000-01, gan roi'r diweddaraf ar y cynnydd o ran cyflwyno dull cyllidebu sy'n seiliedig ar adnoddau, cyfrifon "Llywodraeth Cymru Gyfan" a rhoi'r system ariannol newydd ar waith.

## Cyfrifon 2000-01

5. Nododd fy adroddiad ar gyfrifon y Cynulliad ar gyfer y cyfnod a ddiweddodd 31 Mawrth 2000 fod y Grŵp Cyllid wedi wynebu nifer o broblemau wrth baratoi'r cyfrifon hynny:
   - Amseru wrth baratoi;
   - Cysoniadau Banc; a
   - Prinder staff cymwys a phrofiadol.

Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd 6 Medi 2001, daeth y Pwyllgor Archwilio i'r casgliad y gallai'r Grŵp Cyllid fod wedi rhagweld rhai o'r problemau a wynebodd wrth roi'r cyfrifon hynny gyda'i gilydd a rheoli hynny yn well. Yn ogystal, mynegodd y Pwyllgor ei bryder oherwydd methiant y Grŵp i sicrhau'r cysoniadau banc diweddaraf.

6. Rwyf yn falch i adrodd bod y cyfrif 2000-01 sy'n cwmpasu gweithgareddau craidd y Cynulliad wedi ei gyflwyno i'w archwilio yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Yn ogystal roedd cysoniadau'r banc wedi eu diweddaru yn ystod y flwyddyn fel yr addawyd. Ymgymerir â hwy bellach yn fisol. Yn bennaf, roedd y cyflawniadau hyn o ganlyniad i'r adnoddau ychwanegol a ryddhawyd i'r Grŵp Cyllid a'r profiad a enillwyd o flynyddoedd blaenorol.

7. Roedd pwysau amseru wrth gwblhau cyfrif cyfunedig y Cynulliad erbyn y dyddiad statudol sef 30 Tachwedd 2001. Llesteiriwyd y gwaith o'i baratoi oherwydd i ffigurau allweddol terfynol cyfrifon y Swyddfa Ariannu Ewropeaidd yng Nghymru a chrynodeb o gyfrifon yr awdurdodau iechyd yng Nghymru gael eu cyflwyno'n hwyr. Mae'r Swyddfa Ariannu Ewropeaidd yng Nghymru (WEFO) yn un o asiantaethau gweithredol y Cynulliad. Mae'r Grŵp Cyllid yn paratoi ei gyfrifon ond mae'n ddibynnol ar wybodaeth a roddir gan staff WEFO o ran credydwyr grant a pheth gwybodaeth a gynhwysir yn y nodiadau i'r cyfrifon. Roedd y cyfrif ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2001, y flwyddyn weithredu gyntaf ar gyfer yr asiantaeth honno, yn anodd i'w baratoi a'i archwilio ac fe'i llofnodwyd gan y Prif Weithredwr ar 30 Tachwedd 2001. Un rheswm am hyn oedd na chafodd Canolfan Gyfrifiadurol Chessington wybod tan yn hwyr gan Is-Adran Bersonél y Cynulliad am y staff a oedd yn gweithio i'r Asiantaeth ac o ganlyniad i hyn cofnodwyd costau cyflogres anghywir. Roedd yn rhaid penderfynu'r gost hon trwy ymarfer â llaw. Yn ogystal, roedd gwybodaeth am symiau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn o ran gweithgareddau a gynhaliwyd gan dderbynyddion grantiau a'r symiau canlyniadol dyledus o'r Undeb Ewropeaidd yn gorfod cael ei chadarnhau â llaw fesul achos. Cymerodd hyn fwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

8. Caiff crynodeb o gyfrif yr awdurdodau iechyd yng Nghymru ei baratoi gan gyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad sydd yn ei thro yn ddibynnol ar y pum awdurdod iechyd a'u harchwilwyr penodedig ar gyfer clirio'r ffigurau. Llofnodwyd crynodeb y cyfrif gan Gyfarwyddwr GIG Cymru ar 30 Tachwedd 2001.

9. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cyfrifo WEFO a GIG Cymru lofnodi eu cyfrifon erbyn y dyddiad statudol, sef 30 Tachwedd yn dilyn diwedd y flwyddyn. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Parhaol, fel y Prif Swyddog Cyfrifo, lofnodi'r cyfrif cyfunedig erbyn yr un dyddiad. Cyfarfu'r dyddiad cau hwn ond dim ond o ganlyniad i ymdrech ymroddedig gan y Grŵp Cyllid a staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gweithio ar y cyfuno o fewn graddfa amser fer ac annerbyniol iawn. Yn y dyfodol, gyda chyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan a chynnwys mwy o endidau yn y gwaith cyfuno, bydd y dasg hon yn llawer mwy anos. Felly rwyf yn argymell bod y Grŵp Ariannu yn cynllunio'r gwaith ar y cyfrif cyfunedig drwy ymgynghori â'r partïon eraill sydd â diddordeb, a thrwy bennu dyddiadau cynharach ar gyfer terfynu a llofnodi'r cyfrifon sylfaenol, er mwyn sicrhau y rhoddir amser digonol ar gyfer yr ymarfer pwysig hwn.

10. Cyfyngais gwmpas fy marn archwilio ar grynodeb cyfrif awdurdodau iechyd yng Nghymru yng nghyd-destun y diffyg posibl o ran incwm sy'n ddyledus i GIG Cymru oddi wrth daliadau presgripsiwn. Dilynodd hyn gyfyngiadau tebyg i gwmpas y barnau archwilio a wnaethpwyd gan archwilwyr penodedig y pum awdurdod iechyd yng Nghymru. Ceir manylion pellach yn fy adroddiad a gyhoeddwyd gyda'r crynodeb o'r cyfrif. Yng nghyd-destun y cyfrif cyfunedig, sy'n ymgorffori canlyniadau'r awdurdodau iechyd, nid wyf yn ystyried y symiau dan sylw yn faterol ac felly nid wyf wedi cyfeirio at y mater yn fy marn archwilio.

## Cyllidebu adnoddau

11. Bydd cyflwyno cyllidebu sy'n seiliedig ar adnoddau yn caniatáu i gyllidebau a chyfrifon y Cynulliad gael eu llunio ar sail debyg ac, ar ôl iddynt gael eu gweithredu'n llawn, dylent hwyluso cymariaethau ystyrlon rhwng yr alldro ariannol a'r amcangyfrifon gwreiddiol. Nododd fy adroddiad ar gyfrifon y Cynulliad ar gyfer y cyfnod hyd 31 Mawrth 2000 fod y Cynulliad wedi penderfynu peidio â chyflwyno dull cyllidebu yn seiliedig ar adnoddau ar gyfer 2001-02. Yn dilyn hyn cytunodd Cabinet y Cynulliad i'w gyflwyno mewn egwyddor ar gyfer 2002-03.

12. Yn dilyn cymeradwyaeth derfynol gan y Cabinet, cyflwynodd y Cynulliad ddull cyllidebu yn seiliedig ar adnoddau, ac yn gynnar yn 2001 newidiodd ei amcangyfrifon arian ar gyfer blynyddoedd i ddod i mewn i amcangyfrifon adnoddau. Yna cynhaliwyd rownd gynllunio cyllideb 2001, a bennodd gyllideb y Cynulliad o 2002-03 – 2004-05, ar sail adnoddau.

## Cyfrifon Llywodraeth Cymru Gyfan

13. Cyflwynodd Deddf Adnoddau a Chyfrifon Llywodraeth 2000 ofyniad i'r Trysorlys baratoi "Cyfrif Llywodraeth Gyfan" drwy gyfuno canlyniadau ariannol cyrff sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, bydd yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi cyfrif "Llywodraeth Cymru Gyfan", y bydd yn ofynnol i mi ei archwilio. Caiff y data ariannol a archwilir a gesglir mewn cysylltiad â'r cyfrif hwn ei basio i'r Trysorlys i'w gyfuno i gyfrif y DU. Mae'r Trysorlys yn bwriadu i'r cyfrifon cyntaf o'r math hwn, yn cwmpasu endidau llywodraeth ganolog, gael eu cyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-04.

14. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2001-02 bydd y Grŵp Ariannu yn paratoi cyfrif ar brawf gan ymgorffori canlyniadau'r Cynulliad, ei asiantaethau gweithredol, yr awdurdodau iechyd a chyrff a noddir gan y Cynulliad. Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r prawf hwnnw, efallai y caiff cyrff a noddir gan y Cynulliad eu cynnwys yng Nghyfrif Llywodraeth Cymru Gyfan yn 2002-03, flwyddyn ynghynt nag ar gyfer y DU. Os mai dyna yw'r achos, byddaf yn archwilio a gosod y cyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad yn ffurfiol. Mewn blynyddoedd diweddarach caiff y terfyn ei ehangu i ymgorffori cyrff sector cyhoeddus eraill yn cynnwys ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau lleol.

15. Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ar 6 Medi 2001, anogwyd y Grŵp Cyllid gan y Pwyllgor Archwilio i brysuro'r amserlen hon yng Nghymru er y cydnabyddir bod angen mynd i'r afael â rhai materion cyfrifo bwys o ran awdurdodau lleol. Mae'r Grŵp Cyllid mewn trafodaeth â'r Trysorlys i gytuno ar ddyddiad cynnar ar gyfer cynnwys yr ymddiriedolaethau GIG o fewn Cyfrif Llywodraeth Cymru Gyfan. Mae'n debygol y bydd y cyrff iechyd newydd, a fydd yn gweithredu o 1 Ebrill 2003, yn cael eu cynnwys yng Nghyfrif Cymru Gyfan o'r cychwyn. Mae swyddogion y Cynulliad wedi cyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhoddir ystyriaeth i sut y gall gwybodaeth gyfansymiol o gyfrifon awdurdodau lleol gael ei chynnwys fel rhan o'r broses o gyflwyno adroddiadau cyn y newidiadau i ddulliau cyfrifo awdurdodau lleol a fyddai'n galluogi cyfuniad llawn.

16. Er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer cyfrif prawf 2001-02, gofynnwyd i'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt gan y cyfuno ar gyfer y flwyddyn honno ddarparu crynodeb o'u mantolenni fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2001 i'r Grŵp Cyllid ynghyd â manylion balansau a gynhelir ar y dyddiad hwnnw gydag endidau eraill o fewn y terfyn. Defnyddir y wybodaeth hon gan y Grŵp Cyllid i ddarparu'r fantolen gyfunedig agoriadol ar gyfer 2001-02. Byddaf yn astudio'r fantolen hon fel rhan o'm gwaith ar gyfrifon 2001-02. Cyflawnodd y Cynulliad y Garreg Filltir gyntaf – cytuno ar falansau gydag endidau eraill o fewn y terfyn – erbyn y dyddiad cau, sef 30 Tachwedd 2001.

## Gosod system gyfrifo ariannol a rheoli cyfrifon newydd

17. Yn fy adroddiad ar y cyfrifon ar gyfer y cyfnod a ddiweddodd 31 Mawrth 2000, rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf ar gynlluniau'r Cynulliad i sefydlu system ariannol a rheoli cyfrifon wedi ei hintegreiddio'n llawn. Byddai hyn yn rhoi ystyriaeth i gyfrifo adnoddau a chyllidebu a byddai'n disodli'r system bresennol, a gafodd ei chynllunio yn bennaf i reoli a chyfrifo arian y Swyddfa Gymreig flaenorol ar sail arian parod. Yn wreiddiol, roedd y Grŵp Cyllid wedi bwriadu cyflwyno'r system newydd ar 1 Ebrill 2001 ond gohiriwyd hyn tan 1 Ebrill 2002 er mwyn cael cyfnod estynedig ar gyfer cynllunio a phrofi.

18. Dywedodd swyddogion y Cynulliad wrthyf fod y Project yn mynd yn ei flaen yn dda a disgwylir ei gwblhau'n brydlon ar gyfer cyflwyno'r system newydd o 1 Ebrill 2002. Mae gwaith prototeipio cychwynnol y feddalwedd newydd wedi ei gynnal yn llwyddiannus ac i foddhad defnyddwyr allweddol sydd â chynrychiolwyr yn ffurfio rhan o'r Tîm Project, sydd yn treialu'r systemau newydd. Ar hyn o bryd ymddengys ei bod yn bosibl bodloni'r gofynion cyfrifo sydd wedi eu nodi gan y Cynulliad. Mae amrywiaeth o welliannau busnes yn ffurfio rhan o'r project. Bydd rhai, megis y gallu i gofnodi awdurdodiadau taliadau yn electronig, yn cael eu cyflwyno yn Ebrill 2002; cyflwynir eraill ar sail dreigl dros gyfnod o ddwy flynedd.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Ionawr 2002

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA